Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Brechlyn feirws syncytiol anadlol ar gyfer oedolion hŷn

**Brechlyn RSV** yw’r enw byr arno



# Ynghylch RSV



Mae RSV yn salwch sy’n gallu effeithio ar eich anadlu a'ch ysgyfaint.

Mae’n gallu achosi pethau fel peswch neu annwyd.



Mae llawer o bobl yn dal RSV bob blwyddyn.

Mae’n gallu lledaenu'n hawdd i bobl eraill drwy besychu neu disian.



Dydy’r rhan fwyaf o bobl sy'n dal RSV ddim yn mynd yn sâl iawn.

Maen nhw'n gwella'n gyflym ar eu pennau eu hunain.



Ond mae RSV yn gallu bod yn ddifrifol iawn i rai pobl.

Mae’n gallu eu gwneud nhw’n sâl iawn a byddan nhw’n gorfod mynd i'r ysbyty.

Mae’n gallu arwain at farwolaeth mewn rhai pobl.




Y bobl sy’n fwy tebygol o fynd yn sâl iawn oherwydd RSV yw:

- Oedolion hŷn sydd â phroblemau ar yr ysgyfaint.



- Oedolion hŷn nad yw eu **system imiwnedd** yn gweithio'n dda iawn.



Rhan o'ch corff sy'n helpu i'ch diogelu chi rhag heintiau yw eich **system imiwnedd**.




- Babanod.



Mae'n bwysig iawn ceisio amddiffyn eich hun rhag RSV.

# Beth yw brechlyn



Meddyginiaeth sy'n helpu i'ch cadw chi'n ddiogel rhag dal salwch yw **brechlyn**.



Mae brechlynnau fel arfer yn cael eu rhoi trwy bigiad yn rhan uchaf eich braich.



Mae'r brechlyn RSV yn ddiogel iawn. Fyddwch chi ddim yn dal RSV drwy gael y brechlyn.



Dydy’r brechlyn ffliw ddim bob amser yn atal pobl rhag dal RSV.

Ond mae’n gallu helpu i’ch atal rhag mynd yn sâl iawn os byddwch chi'n ei ddal.

# Pwy all gael y brechlyn RSV



Dylech chi gael y brechlyn os ydych chi'n 75 oed neu'n hŷn.



Neu os ydych chi'n byw mewn cartref gofal i oedolion hŷn.
Does dim rhaid i chi fod yn 75 oed neu'n hŷn.

Neu os ydych chi rhwng 65 a 74 oed ac:



- Rydych chi'n cael problemau gyda'ch anadlu

neu



- Mae gennych system imiwnedd nad yw'n gweithio'n dda iawn.



Bydd pobl sy'n feichiog hefyd yn cael cynnig y brechlyn.



Os nad ydych chi'n siŵr a ddylech chi gael y brechlyn, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs.

## Sut mae cael eich brechlyn




Bydd y GIG neu eich meddyg yn rhoi gwybod i chi pan fydd hi’n bryd i chi gael y brechlyn.

Dylech chi gael y brechlyn cyn gynted ag y bydd yn cael ei gynnig i chi.



Cysylltwch â’ch meddyg os na fyddwch chi’n cael gwahoddiad.




Gallwch chi gael y brechlyn ar yr un pryd â rhai brechlynnau eraill.

Bydd y meddyg neu'r nyrs yn trafod hyn gyda chi yn eich apwyntiad.

## Beth i’w wneud os ydych chi’n sâl pan mae’n bryd i chi gael y brechlyn



Os ydych chi'n sâl, mae'n well aros nes eich bod chi'n teimlo'n well i gael y brechlyn.




Dylech chi ganslo eich apwyntiad a threfnu apwyntiad newydd.

Ond dylech chi geisio cael y brechlyn cyn gynted â phosibl.

## Beth i'w wneud os ydych chi’n ofni nodwyddau



Mae rhai pobl yn ofni nodwyddau.



Dywedwch wrth y person sy'n rhoi'r brechlyn i chi os ydych chi'n poeni am nodwyddau.

Bydd yn eich cefnogi chi.

# Alergeddau




Mae’r rhan fwyaf o bobl sydd ag alergedd i rywbeth yn gallu cael brechlyn RSV heb broblem.




**Ddylech chi ddim** cael y brechlyn os:




- Ydych chi wedi cael **adwaith difrifol** i frechlyn o'r blaen

neu




- Oes oes gennych alergedd i rywbeth sydd yn y brechlyn ac sy’n achosi i chi gael **adwaith difrifol.**



**Mae adwaith difrifol yn golygu:**

- Eich bod chi’n cael trafferth anadlu.



- Eich bod chi’n teimlo'n ddryslyd, yn benysgafn a dydy hi ddim yn bosibl eich deffro chi.



- Bydd eich wyneb, gwddf neu dafod yn dechrau chwyddo.

# Sgil-effeithiau



**Sgil-effeithiau** yw'r pethau sy'n gallu digwydd i chi ar ôl i chi gael y brechlyn.

Dydy pawb ddim yn cael sgil-effeithiau.




Os byddwch chi'n cael sgil-effeithiau, dylen nhw wella ar ôl diwrnod neu ddau.

Dyma bethau y gallech chi eu teimlo ar ôl cael y brechlyn RSV:



- Braich boenus lle cawsoch chi'r pigiad.



- Cur pen/pen tost.



- Teimlo'n flinedig iawn.



- Poenau yn eich corff.



Mae sgil-effeithiau difrifol yn anghyffredin iawn.
Mae hyn yn golygu nad oes llawer o bobl yn cael sgil-effeithiau.

Mae sgil-effeithiau difrifol yn bethau fel:




- Teimlo goglais, cael poenau miniog neu deimlo'n wan yn eich dwylo, eich traed, eich breichiau a'ch coesau.

  Dylech chi gael apwyntiad meddyg ar unwaith neu ffonio **GIG 111.**




- Cael adwaith difrifol i'r brechlyn RSV.

  Rhaid i chi ffonio **999** ar unwaith.




Siaradwch â'ch meddyg neu nyrs os ydych chi'n poeni am sgil-effeithiau.



Neu gallwch chi ffonio **GIG 111**.

# Rhagor o wybodaeth



Gallwch chi siarad â'ch meddyg os hoffech ragor o wybodaeth am y brechlyn.



Gallwch chi hefyd ffonio GIG 111 Cymru.
**Ffonio 111**
Mae'n rhad ac am ddim i ffonio'r rhif hwn.




Rydych chi'n gallu edrych ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
**icc.gig.cymru/pwnc/imiwneiddio-a-brechlynnau/**




I gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i:
**111.wales.nhs.uk/AmdanomNi/Eichgwybodaeth**

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awst 2026
(gyda chydnabyddiaeth i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU)
ISBN 978-1-83766-918-9
Easy Read UK